# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Gofal Plant Dechrau'n Deg Llangefni**

**Ysgol y Graig**
**Lôn Talwrn**
**Llangefni**
**LL77 7LP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**30 Ebrill 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Gofal Plant Dechrau'n Deg Llangefni wedi'i leoli ar dir Ysgol Gynradd y Graig yn Llangefni, ac mae wedi'i gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer hyd at 24 o blant. Mae'r plant sy'n mynychu'r gwasanaeth rhwng dwy a thair blwydd oed, ac mae ganddynt ystafell chwarae fawr ac ardal chwarae ddiogel y tu allan. Mae'r gwasanaeth yn derbyn cefnogaeth ac arian drwy raglen Dechrau'n Deg i gynnig darpariaeth i blant dwy flwydd oed. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'r 'cynnig gweithredol' mewn perthynas â'r Gymraeg, sy'n golygu bod modd i blant a rhieni ddefnyddio'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod gofyn amdano. Yr unigolyn cyfrifol yw Bethan Jones a'r personau â gofal yw Rebecca Heneghan a Siân Jones.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn hapus ac yn brysur. Maent yn ffurfio cyfeillgarwch â'r rhieny o'u hamgylch ac maent yn elwa ar weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n cynnig profiadau diddorol sydd wedi'u haddasu ar gyfer diddordebau unigol. Mae'r staff a'r arweinwyr yn gymwys iawn, ac maent yn ymroddedig ac yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o safon uchel. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac wedi'i gynllunio'n dda o safbwynt y plentyn. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac maent wedi'u gwneud o amrediad eang o ddeunyddiau. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, ac maent yn cefnogi staff i gyflawni eu rolau'n dda ac i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â rhieni ac asiantaethau partner.

### 2. Gwelliannau

Mae'r gwasanaeth wedi gweithredu'r argymhellion arfer da a wnaed yn yr adroddiad arolygu diwethaf.

Ers yr arolygiad hwnnw, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu newidiadau cadarnhaol er mwyn lleihau'r risg o unigolion heb awdurdod yn cael mynediad i'r adeilad. Mae'r rhieni wedi'u hatgoffa o bwysigrwydd peidio â gadael pobl i mewn i'r adeilad.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn. Gwnaethom rai argymhellion arfer da mewn perthynas â'r amgylchedd a phrofiadau'r plant.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn ddysgwyr hapus a chwilfrydig.  Cânt eu cefnogi'n dda ac maent yn elwa ar eu profiadau dysgu a chwarae. Mae plant yn awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd o'u hamgylch, ac mae ganddynt gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol; maent yn dilyn eu diddordebau ac yn ehangu eu gorwelion.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau a chânt eu hannog i fynegi eu hunain.

Roedd y plant yn hyderus i ddilyn eu diddordebau ac roeddent yn dewis beth oeddent am ei wneud yn ystod chwarae rhydd.  Er enghraifft: ar ôl brwsio eu dannedd, dewisodd plant ym mha fan chwarae yr oeddent yn dymuno chwarae ac i ddechrau, dewisodd sawl un ohonynt i chwarae â'r tywod.  Wrth i'r sesiwn fynd yn ei blaen, symudodd plant o un fan i'r llall yn rhydd.  Roedd digon o gyfle i'r plant rannu eu syniadau gyda'r staff. Wrth i'r plant chwarae, roedd staff bob amser ar gael i gynnig cymorth, cysur neu arweiniad.  Gwelsom fod un plentyn ac aelod o staff yn chwarae yn y gornel gartref, a pharatôdd y plentyn bryd bwyd i'r aelod o staff.  Roedd y plant nad oedd y Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt yn cael eu cefnogi i ddysgu ac ymgyfarwyddo â'r iaith.  Pan oedd yn briodol ac yn angenrheidiol, defnyddiwyd y ddwy iaith er mwyn sicrhau bod pawb yn deall beth oedd yn digwydd o'u cwmpas.

Roedd y plant yn cymryd rhan yn dda ac roeddent yn hyderus i ddylanwadu ar sut yr oeddent yn treulio eu hamser.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae’r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu.  Maent yn creu cyfeillgarwch gyda'r rhai o'u cwmpas.

Roedd y plant yn cyrraedd ac yn gwenu ar eu ffrindiau a'r staff.  Gwnaethant hongian eu cotiau ar eu pegiau personol, a gwnaethant ymuno â'r lleill ar unwaith ar gyfer amser cylch, yn barod i gyfarch ei gilydd â 'bore da'.  Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol, roeddent yn gwybod beth oedd i'w ddisgwyl ohonynt ac roedd hyn yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch a hyder iddynt.   Er enghraifft, roeddent yn gwybod pan oedd yn bryd iddynt chwarae â'r offerynnau cerdd i gyfarch ei gilydd â 'bore da'.  Roedd plant yn rhannu eu profiadau a'u cyflawniadau â'i gilydd a chan wenu, gwelsom blant yn dweud wrth y plentyn wrth eu hochr pa gerdyn canu yr oeddent wedi'i ddewis.   Pan oedd yn briodol, roedd plant yn ceisio arweiniad a chysur gan staff, er enghraifft, pan oedd angen cymorth arnynt i roi eu cotiau amdanynt.  Roedd plant yn mynd at staff am gymorth pan oedd mwy nag un ohonynt yn dymuno chwarae â'r un het galed yn y gornel adeiladu.  Cafodd y plant a oedd wedi

blino eu cefnogi, ac roedd staff yn adnabod yr arwyddion ac yn darparu blancedi i'r plant er mwyn eu hesmwytho a'u gwneud yn gyfforddus.

Mae'r plant yn meithrin ymdeimlad o berthyn ac maent yn hapus i dreulio amser gyda'r rheiny o'u cwmpas.

### 1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant wedi dechrau gwneud ffrindiau gyda phlant eraill, ac maent yn mwynhau chwarae a sgwrsio â'u ffrindiau.

Roedd y plant yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac roeddent yn fodlon cymryd eu tro a rhannu adnoddau. Yn ystod amser cylch, eisteddodd y plant ac aros yn amyneddgar am eu tro i ddewis cerdyn canu o'r 'ymbarél sy'n canu' ac ymunodd pob un yn frwd â'r gân a ddewiswyd. Yn ystod chwarae rhydd, pan ddewisodd nifer ohonynt chwarae â'r tywod, rhannodd y plant yr adnoddau yn rhwydd; gan estyn rhawiau i'w gilydd a helpu ei gilydd i lenwi'r bwcedi. Wrth chwarae yn yr awyr agored, gwnaethant rannu'r adnoddau a oedd ar gael i chwistrellu'r dŵr, ac roedd pob un ohonynt yn hapus iawn i helpu ei gilydd i lanhau'r ffenestri.

Mae'r plant yn dysgu i gymryd eu tro, i rannu ac i gydweithio'n dda.

### 1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn ddysgwyr prysur a chwilfrydig.

Roedd y plant yn awyddus i ymuno yn yr hyn a oedd yn digwydd drwy gydol y sesiwn. Roeddent yn elwa ar gyfoeth o wahanol brofiadau ac roedd y staff yn ymateb yn dda i blant yr oedd angen cymorth neu arweiniad pellach arnynt. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn ceisio paentio llun, a gwnaeth staff ei helpu i roi'r ffedog amdano ac, ar ôl gorffen paentio'r llun, helpwyd y plentyn i'w symud i le diogel i sychu. Roedd plant yn derbyn cefnogaeth â gweithgaredd strwythuredig a oedd wedi'i gynllunio, ac roeddent yn gweithio ar ddatblygu eu sgiliau echddygol trwy ddefnyddio detholiad helaeth o sipiau gwahanol. Roedd dysgu plant yn cael ei ehangu trwy ryngweithio cadarnhaol ac arweiniad gan staff. Roedd y plant yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn hwylus ac roeddent yn mwynhau cwmni ei gilydd.

Mae plant yn canolbwyntio ar weithgareddau am gyfnod priodol o amser ac yn ymddiddori yn y profiadau sy'n cael eu darparu iddynt.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i ddysgu bod yn annibynnol.

Gwelsom blant yn arwain a chyfarwyddo eu chwarae eu hunain, ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Chwaraeodd un grŵp o blant â'r jig-sos ar y bwrdd wrth iddynt sgwrsio â'i gilydd, gan ddweud wrth ei gilydd beth oeddent yn dymuno ei wneud ar ôl hynny. Roedd y

plant yn cael eu hannog i gwblhau tasgau mor annibynnol ag y bo modd. Er enghraifft, wrth gyrraedd, cawsant eu hannog i gwblhau gweithgaredd hunangofrestru, a'r plant oedd yn penderfynu pryd yr oeddent yn dymuno bwyta eu byrbryd. Roedd plant yn cael eu hannog i dacluso ar eu hôl yn ystod cyfnodau pontio, ac fe'u gwelwyd hefyd yn golchi eu dwylo yn y sinc heb unrhyw anogaeth. Roedd plant yn tacluso eu platiau drostynt eu hunain ar ôl mwynhau eu Weetabix yr oeddent wedi'i weini’n annibynnol, ac roeddent yn ymfalchïo'n fawr yn eu cyflawniadau. Gwnaethom drafod y posibilrwydd o gyflwyno 'helpwr y dydd' â'r person â gofal, lle y mae plentyn yn cynorthwyo â thasgau'r oedolion. Er enghraifft, byddant yn helpu i baratoi'r caffi yn barod i'r plant ddod a mwynhau eu byrbryd.

Mae'r plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau lle maent yn datblygu eu sgiliau, ac maent yn rhydd i gyflawni pethau drostynt eu hunain.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn gydwybodol ac yn ddiwyd yn eu rolau.  Maent yn darparu profiadau arwyddocaol a gwerthfawr i'r plant. Mae staff yn hyrwyddo diogelwch a llesiant y plant, ac maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol ac ysgogol i ddiwallu anghenion dysgu dynodedig y plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae staff yn ymroddedig i hybu ffordd o fyw iach a chadw'r plant yn ddiogel.

Roedd staff yn gyfarwydd â'u rolau ac yn hyderus ynddynt.  Er enghraifft, roeddent yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau ac roeddent yn diwallu anghenion plant mewn modd hyderus. Roedd staff yn cefnogi plant i fwynhau eu hamser yn yr awyr iach y tu allan, ac roeddent yn annog gweithgarwch corfforol, a gwelwyd plant yn rhedeg ac yn neidio.

Roedd staff yn glanhau'r byrddau yn rheolaidd ac roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn o olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta.  Gwnaeth y staff gyflwyno'r plant i flasau gwahanol yn ystod amser byrbryd.  Ar ddiwrnod yr arolygiad, fe'u gwelsom yn mwynhau Weetabix a llaeth i'w yfed, a chynigiwyd dŵr fel dewis arall.  Gwelsom ffotograffau o blant yn mwynhau ffrwythau a llysiau, a chynigir bwydlen o fyrbrydau amrywiol.  Roedd staff yn gwisgo ffedogau a menig priodol wrth baratoi at amser byrbryd.

Roedd staff yn gyfarwydd â'r broses gywir i'w dilyn wrth newid cewynnau plant, yn unol â dull archwilio rheoli heintiau Cymru gyfan, er mwyn lleihau'r risg o ledu heintiau.

Roedd y staff yn hyderus wrth ddweud wrthym am y broses y byddent yn ei dilyn pe bai ganddynt bryderon diogelwch ynghylch plentyn.  Rhoddir blaenoriaeth uchel i hyrwyddo cynnydd a llesiant y plant.  Mae'r holl staff yn meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig gyfredol, ac roedd ymarferion tân wedi'u cwblhau yn rheolaidd er mwyn sicrhau y byddai staff yn gyfarwydd â'r drefn pe bai argyfwng. Roedd unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau a oedd wedi digwydd wedi'u cofnodi'n briodol a'u llofnodi gan rieni. Cymerodd staff ofal o blentyn a gafodd ychydig o dywod yn ei llygaid wrth chwarae; golchwyd ei llygaid yn drylwyr a darparwyd cofleidiadau a chysur, ac roedd hyn yn galluogi'r plentyn i fynd yn ôl i chwarae â'r tywod yn hyderus ac i barhau â gweddill y sesiwn.

Roedd staff wedi cwblhau asesiadau risg cynhwysfawr ar gyfer amgylchiadau lle'r oeddent yn gofalu am blentyn ag alergeddau penodol.  Trwy drafodaethau, gwelsom fod staff yn hyderus ac yn gyfarwydd â'r hyn a oedd wedi'i gofnodi y tu mewn iddynt, yn ogystal â'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gofalu am y plentyn mewn modd diogel.

Mae staff yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn diwallu anghenion iechyd a llesiant y plant yn hyderus.

## 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth.

Roedd staff wedi meithrin perthynas gadarnhaol â'r plant ac yn eu hwyluso i gymryd eu tro a rhannu'n briodol.

Roedd staff yn ymatebol i blant unigol. Er enghraifft, yn ystod amser cylch pan ddechreuodd plentyn aflonyddu, deallodd staff ei fod yn bryderus oherwydd ei fod yn dymuno dal cerdyn canu o'r ymbarél sy'n canu, fel yr oedd gan rai o'r plant eraill. Gobrwywyd ymddygiad cadarnhaol ar unwaith. Er enghraifft, pan oedd plant wedi gwrando a dilyn cyfarwyddiadau'n dda, rhoddwyd sticer iddynt fel arwydd o'u cyflawniadau. Clywsom blant yn cael eu llongyfarch am eu gwaith da yn rheolaidd, ac roedd hyn yn cynyddu eu hunan-barch. Mae staff yn gwneud addasiadau a newidiadau i'r sesiwn, yn dibynnu ar yr hyn sy'n gweithio orau i'r plant. Dywedodd y person â gofal ei bod wedi symud yr amser yr oedd plant yn brwsio eu dannedd fel ei fod ar ôl amser cylch, oherwydd bod plant yn elwa mwy ar y profiad ac yn ymgysylltu'n well.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad mewn modd cadarnhaol trwy osod ffiniau realistig a defnyddio technegau priodol i sicrhau nad oes unrhyw ddryswch ym meddwl y plentyn o ran yr hyn sy'n dderbyniol.

## 2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn bodloni eu hanghenion unigol?

Roedd staff yn gwella dysgu'r plant trwy ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau ac ymateb i'w hanghenion yn effeithiol.

Roedd staff wrth law i gefnogi ac i arwain plant. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu system gweithiwr allweddol effeithiol, gyda gweithwyr allweddol yn cwblhau arsylwadau rheolaidd ynghylch cyflawniadau plant, a gwelsom dystiolaeth bod y staff yn adnabod y plant yn dda a bod ganddynt wybodaeth bersonol a manwl am eu gallu. Roedd proses asesu a gyflwynwyd yn ddiweddar yn galluogi staff i asesu gallu'r plant yn ffurfiol ac asesu a yw'r gweithgareddau a ddarperir yn cael eu teilwra i anghenion unigol, ac roedd pecyn ymyrraeth yn cael ei gynnig, yr oedd yr holl blant yn elwa arno. Mae gweithiwr cymunedol Dechrau'n Deg yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, ac mae'n cwblhau sesiynau grŵp â'r plant o'r enw 'siop siarad'. Unwaith eto, caiff y rhain eu teilwra i anghenion dysgu penodol ac amcanion y plant sy'n mynychu'r sesiynau, a phe bai angen, cânt eu cefnogi ymhellach gan eu teuluoedd yn eu cartrefi.

Roedd staff yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod addysg lleol, therapyddion lleferydd ac iaith, ymwelwyr iechyd lleol, ac athrawon a chynghorwyr o gynllun Dechrau'n Deg i sicrhau y byddai anghenion y plant yn cael eu diwallu'n effeithiol.

Caiff themâu a gweithgareddau eu cynllunio, yn dibynnu ar ddiddordebau'r plant, a rhoddir pwyslais ar alluogi plant i arwain a chyfarwyddo eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, caiff un gweithgaredd y tu mewn ac un gweithgaredd y tu allan eu dewis bob wythnos, gydag amlinelliad bras o'r hyn y byddant yn ei gynnwys. Yn ystod yr arolygiad, y gweithgaredd y

tu allan oedd chwarae dŵr, ac roedd plant yn cael eu hannog i ddefnyddio teclynnau dosbarthu dŵr.  Arweiniodd y gweithgaredd hwn at blant yn gofyn a allent lanhau'r ffenestri; roedd staff wedi gallu darparu'r sbyngau a'r dŵr er mwyn galluogi'r plant i ehangu ac i adeiladu ar eu syniad.  Ymgysylltodd y staff hefyd â'r dasg yn frwdfrydig.  Roedd y newid rhwng un gweithgaredd a'r llall yn ddidrafferth ac amharwyd ar y plant cyn lleied â phosibl.

Mae staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb yn effeithiol ac yn rhagweithiol i anghenion unigol y plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd wedi'i gynllunio'n ofalus o safbwynt plentyn. Mae peryglon yn cael eu rheoli'n dda ac mae'r adnoddau o ansawdd da, sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu gwahanol i blant. Mae'r arweinwyr yn darparu mannau lle gall y plant ymlacio yn ogystal â mannau iddynt eu harchwilio a chwarae ynddynt.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, ac maent yn gweithredu newidiadau yn brydlon pan fo angen.

Pan gyrhaeddom yr adeilad, cawsom fynediad gan riant a oedd ar fin gadael, wedi iddo ollwng ei blentyn yn y gwasanaeth. Trafodwyd hyn ar unwaith â'r person â gofal, a'r diwrnod ar ôl yr arolygiad, derbyniwyd ymateb ysgrifenedig cadarnhaol yn adrodd pa gamau yr oedd angen eu cymryd i leihau'r risg o ddieithriaid yn cael mynediad heb awdurdod i'r adeilad. Y tu mewn i'r adeilad, gofynnwyd i ni am ein cardiau adnabod ac am lofnodi'r llyfr i ymwelwyr. Cadwyd cofrestr ddyddiol o bresenoldeb staff a phlant; roedd rhieni hefyd yn cofrestru eu plant ac yn nodi pwy fyddai'n casglu eu plentyn ar ddiwedd y sesiwn. Trafodom â'r person â gofal nad oedd staff bob amser yn cofnodi'r amser y gwnaethant adael a bod angen cymryd camau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Roedd yr adeilad a'r mannau allanol yn ddiogel ac roedd drysau'n cael eu cadw dan glo yn ystod y sesiwn. Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer yr holl fannau a ddefnyddir, ac roedd y rhain wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru bob blwyddyn. Roedd asesiadau risg ychwanegol wedi cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau penodol neu newidiadau i'r amgylchedd. Gwelsom y drefn lanhau ddyddiol yn cael ei chyflawni, gyda dulliau a gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod peryglon yn cael eu nodi a bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau i ddiogelwch plant.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gofelir am blant mewn amgylchedd cysurus, golau a diddorol sy'n addas i'w hanghenion.

Roedd yr holl fannau'n olau, yn lliwgar ac yn groesawgar, ac roedd digon o enghreifftiau o waith y plant wedi'u harddangos yn llawn balchder. Roedd man benodol wedi'i dynodi er mwyn i blant allu dewis a oeddent yn dymuno arddangos eu gwaith eu hunain, a gallent ddewis yr hyn yr oeddent yn dymuno ei arddangos. O ganlyniad, roedd hyn yn meithrin ymdeimlad o berthyn yn y plant.

Roedd pob man wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ac wedi'i haddurno'n dda, ac roedd amrediad o gyfarpar ar gael i ddiwallu anghenion y plant. Roedd man ddynodedig yn y cyntedd i'r plant gadw eu cotiau a'u bagiau. Roedd hyn hefyd yn creu ymdeimlad croesawgar, ac roedd hysbysfwrdd yn arddangos gwybodaeth ar gyfer y rhieni, yn ogystal ag enghreifftiau o'r gwaith yn cael ei gyflawni.

Roedd yr ystafell chwarae wedi'i threfnu'n fannau dysgu a oedd yn ddiddorol a dengar i'r plant, gan ddarparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Roedd digon o le ac roedd eitemau'n cael eu storio a'u labelu'n dda gyda lluniau fel bod modd i'r plant ddeall beth oedd wedi'i gadw ym mhob blwch. Ar ben hyn, roedd cornel ddarllen gyfforddus lle y gallai'r plant ymlacio a mwynhau cyfnodau tawelach. Roedd yr holl gyfleusterau o faint priodol fel bod plant yn gallu cyflawni tasgau'n annibynnol. Roedd staff wedi gweithredu gwersi o ddigwyddiad hyfforddiant diweddar ynglŷn â chreu mannau cyfforddus. Gwelsom fod canopi wedi'i osod dros un ffenestr i greu man ddiogel i blant aros pe bai eu rhieni neu eu gwarchodwyr yn hwyr yn eu casglu, er mwyn lleihau eu pryder. Fe'i gwelsom ar waith, a chlywsom sgwrsio hyfryd rhwng aelod o staff a phlentyn am y tywydd a sut roedd 'Heulwen Haul' wedi dod i ddweud helo a dweud wrth 'Sioni Rhew' ei bod hi'n amser iddo ffarwelio. Roedd y plentyn yn hapus i aros am rywun i'w gasglu mewn man ddiogel.

Dywedodd staff wrthym, a gwelsom fod y plant yn mwynhau treulio amser y tu allan yn benodol, a darparwyd dillad gwrth-ddŵr priodol. Gwnaethom drafod â'r person â gofal sut y gellid ystyried caniatáu i blant symud yn rhydd rhwng y tu mewn a'r tu allan, gan alluogi plant i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch ble roeddent yn treulio eu hamser. Ar hyn o bryd, nid oeddent yn gallu cadw'r drws ar agor.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod wedi gosod adnoddau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant, a bod pob man wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, a hefyd yn groesawgar.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da ar gael i'r plant.

Roedd y teganau'n lân, mewn cyflwr da ac yn addas i anghenion a grŵp oedran y plant. Roedd cofnod yn cael ei gadw o'r adegau y glanhawyd y teganau a'r adnoddau. Roedd amrediad eang o fannau ar gael i blant eu harchwilio, a gwnaethom drafod y posibilrwydd o gynnwys deunyddiau mwy naturiol ac offer tŷ er mwyn i blant archwilio a dysgu am y byd o'u cwmpas.

Roedd yr holl fannau dysgu wedi'u cyflenwi'n dda, gyda theganau ac adnoddau amrywiol. Roedd wal wedi'i haddurno â ffotograffau o hoff stori'r plant; roedd llyfr mawr a sach stori ar gael i ddod â'r stori'n fyw ar gyfer y plant.

Roedd yr adnoddau a oedd ar gael yn galluogi'r plant i gwblhau tasgau addas drostynt eu hunain. Er enghraifft, roedd sinc is er mwyn i'r plant allu golchi eu dwylo, ac roedd jwg llai ar gael iddynt er mwyn iddynt allu arllwys eu diodydd eu hunain pan oeddent yn sychedig.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gan blant amrywiaeth a dewis da o deganau ac adnoddau sy'n cael eu cynnal a chadw'n dda ac sy'n briodol i anghenion y plant.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn deall yr hyn a ddisgwylir ohonynt, a darperir hyfforddiant i'w galluogi i ddiwallu anghenion unigol y plant. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, gan sicrhau bod y plant yn elwa ar wasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda ac ar staff sy'n gweithredu gweithdrefnau'n effeithiol. Mae’r arweinwyr yn ymroddedig i wella'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu'n barhaus.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus yn eu rolau a'u bod yn gallu dibynnu ar yr arweinwyr am gymorth pan oedd ei angen arnynt. Roedd yr holl ddogfennau angenrheidiol ar gael. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu gwybodaeth angenrheidiol i rieni wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y gofal mae eu plentyn yn ei dderbyn. Roedd polisïau a gweithdrefnau yn gynhwysfawr ac roeddent yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Pan fydd rhieni'n cofrestru â'r gwasanaeth, rhoddir y ffurflenni gofynnol iddynt eu cwblhau.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, ac maent yn ymdrechu i ddarparu profiadau cadarnhaol i'r plant y byddant yn elwa arnynt.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn ceisio adborth ynglŷn â'u gwasanaeth gan y staff, y plant a'r rhieni er mwyn ceisio gwella eu gwasanaeth.

Rhoddwyd cyfleoedd i staff rannu eu safbwyntiau am y gwasanaeth yn ystod cyfarfodydd staff, ac roeddent yn gallu trafod eu hanghenion hyfforddiant yn ystod sesiynau goruchwylio. Roedd adborth wedi cael ei gasglu oddi wrth rieni drwy holiaduron. Lluniwyd adroddiad a oedd yn dadansoddi ansawdd y gofal gan yr unigolyn cyfrifol a'r person â gofal. Roedd yn cynnwys y camau sydd i'w cymryd i wella'r gwasanaeth ac i gynyddu llesiant y plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ganddynt ddulliau ar waith i wella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu yn barhaus.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, y staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn gwneud eu gwaith yn effeithiol ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant.

Roedd y staff wedi'u lleoli'n effeithiol yn ystod y sesiynau.  Roedd rota'r staff ar y wal a dywedodd y staff wrthym am y system lle mae aelodau staff yn gyfrifol am dasgau glanhau a pharatoi ar ddiwrnodau penodol.  Roedd hyn yn galluogi i o leiaf dau aelod o staff ymgysylltu â'r plant, a oedd yn sicrhau eu bod yn brysur, wedi'u goruchwylio'n dda ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae drwy gydol y dydd.

Dywedodd staff wrthym fod ganddynt berthynas weithio dda â'r person â gofal a'r unigolyn cyfrifol.  Gwelsom gofnodion o oruchwylio ystyrlon rheolaidd.  Yn ddiweddar, gweithredwyd dull newydd o oruchwylio sy’n ceisio cyflawni datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer pob aelod o staff, sy'n cynnwys amcanion dysgu nodedig y cytunwyd arnynt.  Dywedodd pob aelod o staff fod yr arweinwyr yn gefnogol ac yn gyfeillgar.   Gwelwyd tystiolaeth o arfarniadau blynyddol yn ffeiliau'r staff hefyd.

Roedd ffeiliau'r staff a ffeiliau'r plant yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.  Cofnodwyd rhifau cyswllt argyfwng y plant yn y gofrestr ddyddiol er hwylustod pe bai argyfwng.

Roedd cynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer absenoldebau staff. Roeddem yn dyst i hyn, oherwydd ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd Swyddog Gofal Plant Dechrau'n Deg yn bresennol i gyflenwi absenoldeb staff, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn dal i redeg yn llyfn.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn rheoli, yn cefnogi ac yn lleoli staff yn effeithiol er mwyn gwella profiadau'r plant.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr a'r staff yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni ac yn eu hysbysu'n dda am yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu o ddydd i ddydd.

Mae’r arweinwyr yn rhoi pwys mawr ar sicrhau bod rhieni'n derbyn yr wybodaeth angenrheidiol am lesiant eu plentyn, ac i'w hysbysu ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd yn y gwasanaeth.  Cyn i blentyn ddechrau mynychu'r gwasanaeth, gwahoddir rhieni i fynychu sesiwn gyda'u plentyn hefyd, a gallant ddychwelyd ar adeg arall pe byddent yn dymuno gwneud hynny.  Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag ymyriadau Dechrau'n Deg eraill, fel y mae'r gweithiwr iechyd a'r gwaith tîm effeithiol yn eu cyfrannu, gan sicrhau canlyniadau gwell i blant.

Mae rhieni'n derbyn diweddariadau rheolaidd ynghylch cynnydd eu plentyn.  Cwblheir adroddiad bob tymor gan weithiwr allweddol plentyn, ac mae'r dogfennau hyn yn cynnwys ffotograffau a chofnodion am yr hyn y mae'r plentyn wedi'i gyflawni.  Rhoddwyd ystyriaeth i gyflwyno nosweithiau rhieni, ond ar hyn o bryd, mae arweinwyr a staff yn dadansoddi'r hyn y byddai'n well gan rieni a'r hyn a fyddai'n cael ei werthfawrogi fwyaf.

Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth, fod eu plant yn hapus a'u bod yn teimlo'n gyfforddus wrth siarad â staff.  Gwahoddir rhieni i ddigwyddiadau yn rheolaidd.  Er enghraifft, gwnaethant fynychu 'parti ar y traeth' yn y gwasanaeth y llynedd i godi arian ac i alluogi rhieni i weld y lle a'r ffordd y mae eu plant yn treulio eu hamser.

Mae'r arweinwyr yn gosod pwys mawr ar weithio mewn partneriaeth â rhieni ac maent yn ymdrechu i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y ffordd mae'r gwasanaeth yn gweithredu ac yn ymwybodol o'r cynnydd mae eu plant yn ei wneud.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn gweithio'n agos gyda'r rhieni ac y rhennir gwybodaeth yn effeithiol.

# 5. Gwelliannau y mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Gellid galluogi plant i symud yn rhydd rhwng y tu mewn a'r tu allan;
- gellid ystyried enwebu 'helpwr y dydd' i helpu â thasgau oedolion;
- dylai staff sicrhau eu bod yn cofnodi'r amser maent yn gadael y gwasanaeth ar bob adeg;
- gellid cyflwyno mwy o eitemau tŷ er mwyn i blant eu harchwilio a dysgu am y byd o'u cwmpas a
- pharhau i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â sicrhau nad yw pobl yn cael mynediad i'r adeilad heb awdurdod.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad dirybudd llawn oedd hwn a gynhaliwyd yn rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 9 Mawrth 2018 o 9am tan 12pm.

Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion gofal a chwblhau arsylwadau i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan staff;
- siarad â'r plant, y staff, y person â gofal ac un rhiant, a gwnaethom adael holiaduron i'r staff a'r rhieni;
- edrych ar y mannau a'r adnoddau yr oedd plant yn eu defnyddio ar ddiwrnod ein harolygiad; a
- gwnaethom roi adborth manwl i'r person â gofal dros y ffôn ynghylch yr hyn a ganfuom a'r hyn yr oedd angen rhoi sylw iddo.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal dydd sesiynol** |
| **Unigolyn cyfrifol** | **Bethan Jones** |
| **Person â gofal** | **Siân Jones**<br>**Rebecca Heneghan** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **rhwng dwy a thair blwydd oed** |
| **Oriau agor** | **9am i 11:30am**<br>**o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol yn unig.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **6 Tachwedd 2014** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **9 Mawrth 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, nodi a bodloni anghenion y bobl sy'n defnyddio neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth o ran yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |